

llunio fy stryd

cystadleuaeth ddylunio i ysgolion cynradd yng
Nghymru

Cyfnod Allweddol 2

Dr Ed Green,
Ysgol Pensaernïaeth Cymru
Prifysgol Caerdydd

Adolygiad E 22 Ionawr 2020

LLUNIO FY STRYD: cystadleuaeth ddylunio i ysgolion cynradd yng Nghymru

Cyflwyniad

Ers dwy flynedd, gyda chefnogaeth Comisiwn Dylunio Cymru ac Ysgol Pensaernïaeth Cymru, mae Prifysgol Caerdydd wedi trefnu cystadleuaeth LLUNIO FY STRYD. Rydym ni wedi'n syfrdanu gyda safon y ceisiadau, a bu adborth gan ddysgwyr ac athrawon yn wych:

"Cefais fy mhlesio'n fawr gan waith y plant wrth iddynt gydweithio i greu eu stryd. Roedden nhw'n dangos llawer o empathi a dealltwriaeth gymdeithasol wrth drafod pa gyfleusterau fyddai eu hangen ar y gymuned, pwy ddylai gael y golygfeydd gorau a'u penderfyniad i ddylunio mannau cyhoeddus o safon... rwy'n edrych ymlaen at ehangu'r prosiect yn wythnos STEM lawn." Matt Worth, Pennaeth Ysgol Gynradd Ffynnon Taf (enillwyr, 2018)

Diben y gystadleuaeth sydd am ddim yw cyflwyno dysgwyr ifanc i syniadau am gartref, lle a chymuned. Mewn gweithgareddau creadigol strwythuredig, bydd disgyblion yn trafod pa agweddau o'r 'cartref' a'r 'stryd' sy'n creu cymdogaethau llwyddiannus. Bwriad gweithgareddau'r gystadleuaeth yw datblygu dealltwriaeth o bwysigrwydd dylunio ac ansawdd yn yr amgylchedd adeiledig, a chodi ymwybyddiaeth o yrfaedd mewn dylunio a diwydiannau creadigol cysylltiedig.

Bwriad y gystadleuaeth yw ehangu'r cyswllt ar draws ysgolion cynradd Cymru, ac mae unrhyw ddsbarth CA2 yn gymwys i gymryd rhan. I gymryd rhan yn y gystadleuaeth, mae'n ofynnol neilltuo o leiaf ddau hanner diwrnod yn yr ysgol. Un nod penodol yn y rhaglen yw annog dysgwyr o leoliadau daearyddol anghysbell a chymunedau sydd dan anfantais economaidd i gymryd rhan. Mae holl adnoddau a deunyddiau cymorth y gystadleuaeth ar gael am ddim ar-lein, a gallwn ateb unrhyw gwestiynau dros ebost. Mae staff a llysgenhadon myfyrwyr yn yr Ysgol Pensaernïaeth yn hapus i helpu i redeg sesiynau mewn ysgolion i gefnogi'r cystadleuwyr lle bo'n bosibl.



Creu a phrofi model ffisegol, yn debyg i ymarferion Cynllunio Go lawn, fel y gwelir yma.

Nodau ac amcanion

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu cynnig ar gyfer prosiect ymgysylltu gyda'r nodau allweddol canlynol:

- Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd dylunio wrth greu adeiladau, llefydd a chymunedau, ymhlith plant rhwng 7 ac 11 oed.
- Ysgogi trafodaeth ynghylch cymuned, cymdogaeth a lle.
- Cyfuno dysgu gwyddoniaeth a thechnoleg gydag ymarferion creadigol.
- Codi proffil gyrfaedd mewn dylunio a'r diwydiannau creadigol.
- Cynnig cyflwyniad i addysg uwch a chyfleoedd cysylltiedig, yn enwedig mewn ardaloedd sy'n ddifreintiedig yn economaidd neu'n ddaearyddol anghysbell.



Diwrnod dylunio cydweithredol yng Nghaerdydd oedd digwyddiad yr enillwyr eleni - y Dylunio Mawr - rhwng tri dosbarth buddugol a 140 o fyfyrwyr blwyddyn 2 yn Ysgol Pensaernïaeth Cymru.

Cofrestru

Mae cofrestru am ddim. Dylai dosbarthiadau sy'n dymuno cymryd rhan anfon ebost yn cadarnhau hyn i shapemystreet@cardiff.ac.uk gyda manylion cyswllt athro goruchwyllo.

Yr adnoddau a anfonir drwy ebost ar ôl cofrestru

- rhwydi tai (pdf, i'w hargraffu)
- cyflwyniad 'tŷ' ar gyfer trafodaeth dosbarth (pdf a powerpoint)
- cyflwyniad 'stryd' ar gyfer trafodaeth dosbarth (pdf a powerpoint)
- log y cyfranogwyr (pdf, i'w argraffu)

Cyfeirnodau

Erthygl ar gynllun peilot a gwblhawyd <https://www.cardiff.ac.uk/news/view/1180851-pupils-design-their-ideal-neighbourhoods>

Cynllunio ar gyfer delwedd sampl gwir http://planning4real.eu/?page_id=636

Pynciau Llywodraeth Cymru: Y Cyfnod Sylfaen <http://gov.wales/topics/educationandskills/foundation-phase/?lang=en>

Pecyn cymorth *Llunio fy Nhref* <http://www.shapemytown.org/about/>

Gweithgareddau *My Square Mile* http://resources.hwb.wales.gov.uk/VTC/ngfl/2007-08/art/my_square_mile/index.html

“Mae'r stryd yn ystafell drwy gytundeb.” Louis Kahn